



Ein cyf/Our ref: DC/JMHSC/02873/25

Jan Williams – Cadeirydd
Abi Harris – Prif Weithredwr
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

20 Ionawr 2026

Annwyl Jan ac Abi

Mae'r llythyr hwn yn dilyn y Cyfarfod Atebolrwydd Cyhoeddus a gynhaliwyd ag aelodau o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar 18 Rhagfyr 2025. Diolch am eich presenoldeb chi a'ch timau yn y cyfarfod, ac am y pecyn tystiolaeth a ddarparwyd cyn y cyfarfod. Mae'r pecyn hwnnw yn rhan bwysig o gofnod y cyfarfod. Mae recordiad o'r cyfarfod ar gael yn [Cyfarfod Atebolrwydd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe](#).

Mae'r llythyr hwn yn nodi fy nealltwriaeth i o'r sefyllfa ar sail y drafodaeth a gafwyd yn y cyfarfod. Byddwn yn parhau i adolygu'r themâu hyn yn ein cyfarfodydd adolygu rheolaidd. Hoffwn gydnabod yr ymrwymiad a ddangoswyd gan eich tîm a'r meysydd cynnydd a wnaed, yn enwedig mewn perthynas â chynaliadwyedd eich gwasanaethau gofal a gynlluniwyd. Yn eich sylwadau agoriadol, gwnaethoch fynegi ymrwymiad i lywodraethiant agored, cydnabod heriau gweithredol, strategol a strwythurol, ac amlinellu gwelliannau diweddar o ran llywodraethiant, atebolrwydd, rheoli risg, a strwythur sefydliadol. Gwnaethoch dynnu sylw at y gwaith sy'n mynd rhagddo i ymdrin â diffygion ariannol gan gynnwys dull cynllunio integredig newydd; cynnal adolygiad fforensig o fuddsoddiadau; gweithredu argymhellion o adolygiadau annibynnol (yn enwedig mewn gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol); ac annog gwelliannau ym meysydd iechyd meddwl, datrysiadau digidol, a rheoli ystadau. Yn sail i'ch gwaith, mae ffocws ar arweinyddiaeth dosturiol, gweithio mewn partneriaeth a chynaliadwyedd ariannol.

Mae'r Bwrdd yn cydnabod difrifoldeb ei sefyllfa ariannol ddiffygiol sy'n gwaethygu, a chadarnhaodd fod y rhagolwg diwedd blwyddyn yn parhau i fod oddi ar y trywydd iawn yn sylweddol. Gwnaethoch esbonio bod cynllun adfer ariannol diwygiedig yn cael ei ddatblygu, a gefnogir gan reolaethau llymach, trefniadau craffu gwell ar wariant yn ôl disgrisiwn, a phroses fonitro wythnosol o'r arbedion sy'n cael eu cyflawni. I gefnogi hyn, rydych wedi sefydlu grŵp gwelliannau ariannol pwrpasol sydd â chylch gwaith i leihau dibyniaeth ar fesurau nad ydynt yn rheolaidd. Mae hyn oherwydd mai dim ond hanner yr arbedion o £130 miliwn dros y tair blynedd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
Bae Caerdydd • Cardiff Bay 0300 0604400
Caerdydd • Cardiff Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
CF99 1SN Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

diwethaf sydd wedi bod yn rheolaidd, gan dynnu sylw at yr angen am newid cynaliadwy.

Gwnaethoch nodi newid i benderfyniadau buddsoddi sy'n seiliedig ar risg, system olrhain well ar gyfer enillion ar fuddsoddiad, a pharodwydd i dynnu arian yn ôl o feysydd sy'n tanberfformio. Er bod y camau hyn yn cael eu croesawu, mae'r sefyllfa bresennol yn annerbyniol. Rwy'n disgwyl i'r Bwrdd ddangos gafael ac atebolrwydd, yn ogystal â chynlluniau arbedion credadwy a sicrwydd bod penderfyniadau ariannol yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol. Bydd tryloywder wrth adrodd a thystiolaeth o gyflawni yn hanfodol, ac rwy'n disgwyl gweld cynnydd mesuradwy yn cael ei wneud tuag at leihau'r diffyg o fewn y chwarter nesaf. Mae graddfa'r her ariannol yn gofyn am weithredu brys a phendant, nid camau graddol. Gwnaethoch ddisgrifio eich bod wedi nodi camau gweithredu gwerth £11.7 miliwn i gau eich bwlch arbedion gweddilliol o £13 miliwn yn y flwyddyn ariannol hon a'ch bod yn disgwyl i'r camau hyn gael eu cyflawni. Mae angen hyder arnaf y bydd y bwrdd iechyd yn cyflawni ei sefyllfa ragweladwy yn y flwyddyn ariannol hon, cyn nodi a chyflawni camau gweithredu i wella'r sefyllfa hon a chyflawni llwybr trywydd tuag at gydbwysedd ariannol.

O ran gofal a gynlluniwyd, mae'r bwrdd iechyd wedi bod yn effeithiol wrth sefydlogi'r amseroedd aros hir a symud tuag at fodel cyflawni newydd. Gwnaethoch gydnabod, er gwaethaf y gwelliannau hynny, bod amseroedd aros hir yn dal i fod yn bryder a bod awydd i barhau i wneud gwelliannau pellach. Mae'r rhain yn cynnwys cymryd camau gweithredu i wella'r defnydd o theatrau, cynyddu'r defnydd o contractau allanol, ac ystyried capasiti ychwanegol drwy weithredu ar benwythnosau. Mae gwaith ar y gweill i sicrhau bod y broses ar gyfer amserlennu yn gweithio mor effeithiol â phosibl, lleihau'r nifer o apwyntiadau a gaiff eu canslo, a blaenoriaethu arbenigeddau risg uchel fel orthopedeg ac offthalmoleg. Mae sesiynau ychwanegol wedi'u comisiynu, ac mae'r Bwrdd yn gweithio gyda darparwyr yn y sector annibynnol i ehangu capasiti.

Cydnabuwyd y pwysau ar ofal brys ac argyfwng gan y Bwrdd, ac mae'n parhau i gael ei herio gan ymchwydd mewn gweithgarwch, cyfyngiadau o ran seilwaith, a materion yn ymwneud â rheoli heintiau. Gwnaethoch amlinellu mentrau i wella llif cleifion, lleihau oedi wrth drosglwyddo cleifion o ambiwlansys, a chryfhau prosesau cynllunio i ryddhau cleifion. Gwnaethoch nodi ffocws ar achosion o oedi wrth ryddhau cleifion. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd wythnosol gyda gwasanaethau cymdeithasol, creu wardiau pwrpasol ar gyfer cleifion sydd wedi profi oedi, gwella dulliau o weithio mewn partneriaeth, a chynlluniau i gofnodi a thacio niwed i gleifion oherwydd oedi. Mae ffocws hefyd ar gyflwyno protocolau rhyddhau ar yr un diwrnod, annog mwy o gydgyssylltu gydag awdurdodau lleol i wella capasiti cymunedol, a defnyddio staff ychwanegol mewn adrannau achosion brys. Er bod y camau hyn yn gadarnhaol, mae perfformiad yn parhau i fod yn is na'r disgwyliadau cenedlaethol, ac mae'r effaith ar ddiogelwch cleifion yn destun pryder. Pwysleisiais yr angen am atebion ar draws y system ac i'r Bwrdd ddangos bod ymyriadau yn cyflawni gwelliannau amlwg. Rhaid i'r Bwrdd weithio'n agos gyda phartneriaid i sicrhau bod llif yn cael ei wella ar draws y system gyfan, ac nid o fewn waliau ysbytai yn unig.

Trafodwyd cynaliadwyedd y gweithlu yn fanwl. Gwnaethoch amlinellu cynlluniau i gryfhau llwybrau recriwtio, ehangu ymgyrchoedd recriwtio rhyngwladol, a gwella mentrau llesiant i staff, gan gynnwys rhaglen gadw newydd ar gyfer staff nyrsio.

Gwnaethoch hefyd gydnabod pryderon diweddar o ran gwasanaethau mamolaeth ac iechyd meddwl, gan gadarnhau bod cynlluniau gwella ar waith, a gefnogir gan fwy o oruchwyliaeth. Yn ogystal, gwnaethoch dynnu sylw at gamau gweithredu i wella arweinyddiaeth glinigol ac ymgorffori gwersi o adolygiadau allanol. O ran ymdrin â chwynion, derbyniodd y Bwrdd fod angen gwella amseroedd ymateb a thryloywder. Ymrwymodd i weithredu system newydd ar gyfer rheoli cwynion, gyda'r nod o glirio ôl-groniadau a gwella ymatebolrwydd erbyn mis Ebrill, a gwella'r dysgu o adborth gan gleifion. Gwnaethoch hefyd nodi'r gwaith rydych yn ei wneud fel Bwrdd i sicrhau bod lleisiau eich cleifion, eich gweithlu a'ch cymunedau'n cael eu clywed. Rhaid i fecanweithiau sicrwydd fod yn gadarn a rhaid i wersi o adolygiadau gael eu hymgorffori'n llawn.

Mae perfformiad gwasanaethau canser yn parhau i fod yn is na'r disgwyliadau cenedlaethol. Gwnaethoch amlinellu cynlluniau i wella cydgysylltu rhwng llwybrau, cynyddu capasiti diagnostig, a chryfhau gwaith tîm amlddisgyblaethol. Gwnaethoch hefyd gyfeirio at gynlluniau i gydweithio'n rhanbarthol er mwyn rhannu capasiti lle bo modd.

Cydnabuwyd bod oedi cyn rhoi diagnosis yn rhwystr mawr ar draws sawl llwybr. Ymrwymodd y Bwrdd i fuddsoddi mewn capasiti delweddu ac endosgopi, recriwtio staff ychwanegol, ac ystyried oriau estynedig i gynyddu nifer y cleifion yr ymdrinnir â hwy. Gwnaethoch gadarnhau bod sesiynau diagnostig ychwanegol wedi'u comisiynu a bod gwaith ar y gweill i symleiddio prosesau atgyfeirio. Er bod y camau hyn yn gadarnhaol, heriais y Bwrdd i gyflymu'r broses gyflawni a darparu cerrig milltir clir ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â safonau cenedlaethol. Yn yr un modd, er bod y camau hyn yn cael eu croesawu, rhaid trin diagnosteg fel galluogwr strategol ar gyfer adferiad a dylid mynd ar drywydd atebion arloesol.

Trafodwyd gwasanaethau mamolaeth yn fanwl. Derbyniodd y Bwrdd ganfyddiadau adolygiadau diweddar, gan gadarnhau bod camau ar y gweill i fynd i'r afael â phryderon o ran diogelwch, diwylliant a llywodraethiant. Gwnaethoch dynnu sylw at gamau i gryfhau llywodraethiant, cywirdeb data ac arweinyddiaeth glinigol, gwella hyfforddiant staff, a gwella ymgysylltiad â chleifion, gan gynnwys cyflwyno digwyddiadau gwrando ar gyfer menywod a theuluoedd. Ymrwymodd y Bwrdd hefyd i weithredu fframwaith uwchgyfeirio newydd ar gyfer pryderon clinigol ac i wella cydymffurfiaeth â safonau diogelwch cenedlaethol. Er bod y camau hyn yn gadarnhaol, pwysleisiais fod rhaid i fenywod a theuluoedd gael hyder yn ansawdd y gofal a bod rhaid i'r Bwrdd ddangos gwelliant parhaus, nid atebion tymor byr. Bydd adrodd ar sicrwydd yn hanfodol yn y maes hwn, ac rwy'n disgwyl gweld tystiolaeth bod newid diwylliannol wedi'i ymgorffori a bod staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i godi pryderon.

Mae gwasanaethau iechyd meddwl yn parhau i wynebu pwysau sylweddol, ac mae pryderon ynghylch yr ystad, ansawdd a diogelwch, mynediad, amseroedd aros, a phrofiad cleifion. Ymrwymodd y Bwrdd i leihau amseroedd aros, gwella'r ymateb i

argyfyngau, a lleihau nifer y lleoliadau y tu allan i'r ardal. Gwnaethoch gadarnhau bod staff ychwanegol wedi'u recriwtio i dimau cymunedol a bod gwaith ar y gweill i ehangu'r capasiti mewn argyfwng.

Gwnaethom hefyd drafod gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol, ac roedd y Bwrdd yn cydnabod pwysigrwydd cryfhau'r ddarpariaeth i leihau'r pwysau ar ysbytai. Gwnaethoch amlinellu cynlluniau i wella mynediad at feddygon teulu ac i ehangu ymyriadau cymunedol, gan gynnwys pecynnau gofal cartref gwell. Mae integreiddio ar draws sectorau yn hanfodol i sicrhau gwelliannau cynaliadwy o ran gofal brys ac adfer gofal a gynlluniwyd.

Cydnabuwyd bod iechyd y cyhoedd ac atal yn feysydd blaenoriaeth, ac ymrwymodd y Bwrdd i weithio gyda phartneriaid ar fentrau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a gwella canlyniadau iechyd y boblogaeth. Rhaid i'r rhain gael eu hymgorffori mewn cynlluniau strategol a'u cefnogi gan dargedau mesuradwy.

Y tu hwnt i gwynion, cadarnhaodd y Bwrdd fod adborth gan gleifion yn cael ei ddefnyddio i lywio'r gwaith o ailgynllunio gwasanaethau. Croesawais hyn ond heriais y Bwrdd i ddangos sut mae ymgysylltu yn llywio penderfyniadau ac yn gwella canlyniadau. Gwnaethom drafod cyfraddau uchel o heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, a gwnaethoch dynnu sylw at strategaethau sydd gennych ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys system fonitro systematig, ymyriadau wedi'u targedu, y defnydd o adroddiadau perfformiad integredig i annog gwelliannau a datblygiadau arloesol mewn cyfundrefnau glanhau a newidiadau i'r seilwaith i leihau risgiau o haint.

Amlinellodd y Bwrdd hefyd ei ddull o wneud newidiadau i wasanaethau a chadarnhaodd gysondeb â'r strategaeth genedlaethol. Rhaid i unrhyw newidiadau fod yn dryloyw, dan arweiniad clinigol, a chanolbwyntio ar wella canlyniadau i gleifion.

Trafodwyd trawsnewid digidol a chynllunio ystadau hefyd. Tynnodd y Bwrdd sylw at y cynnydd o ran gweithredu cofnodion cleifion electronig a gwella ansawdd data, ond heriais yr angen am fwy o gyflymder ac eglurder o ran gwireddu manteision. Mewn perthynas ag ystadau, gwnaeth y Bwrdd gydnabod yr ôl-gronid o waith cynnal a chadw a chyfyngiadau o ran seilwaith, gan ymrwymo i flaenoriaethu buddsoddiad i gefnogi amgylcheddau gofal diogel a modern.

Mae'r Bwrdd yn mynd i'r afael â chyfraddau absenoldeb salwch uchel drwy ffrwd waith bwrpasol, gan ganolbwyntio ar gydymffurfio â newidiadau i bolisi a diwylliant. Mae cymorth wedi'i dargedu i reolwyr ac ymdrechion i wella ymgysylltiad â staff, gan fesur cynnydd drwy gyfranogiad mewn arolygon staff. Mae cynlluniau ar waith i leihau'r gweithlu 5% y flwyddyn nesaf, yn bennaf drwy leihau nifer y staff banc ac asiantaeth a rheoli trosiant a swyddi gwag. Disgwylir cynllun gweithlu terfynol erbyn diwedd mis Mawrth.

Trafodwyd y mater o nifer cyfyngedig o swyddi gwag i fyfyrwyr nyrsio yn eu blwyddyn olaf. Gwnaeth y Bwrdd gydnabod methiannau o ran cynllunio yn y gorffennol, gan ddisgrifio'r camau a gymerwyd i gynnig swyddi i'r garfan bresennol. Gwnaethoch

ymrwymo i osgoi materion tebyg yn y dyfodol drwy ddull integredig o gynllunio'r gweithlu ac atebion arloesol.

Ar ddiwedd y cyfarfod, gwnaethoch dynnu sylw at gydweithrediadau rhanbarthol parhaus ac yn y dyfodol gyda byrddau iechyd eraill i fynd i'r afael â heriau a rennir mewn arbenigeddau fel gynaecoleg, llawfeddygaeth gyffredinol, orthopedeg, offthalmoleg a gwasanaethau cardiaidd. Nod y cydweithrediadau hyn yw cyfuno ymdrechion recriwtio a rhannu gwersi er mwyn cryfhau gwasanaethau rhanbarthol, gan sicrhau modelau gwasanaeth cynaliadwy a gwneud y defnydd o gorau adnoddau ar draws y rhanbarth.

I grynhoi, er fy mod yn cydnabod yr ymdrechion sy'n cael eu gwneud, nid yw'r bwrdd iechyd yn cyflawni'r lefel o welliant sydd ei hangen ar hyn o bryd. Rwy'n disgwyl i chi barhau â'ch dull newydd o ymdrin â rheolaethau cynllunio ac ariannol newydd, ehangu ymgysylltiad â chleifion a theuluoedd, a pharhau i ailgynllunio gwasanaethau mewn meysydd allweddol fel iechyd meddwl a mamolaeth. Rwyf hefyd eisiau i chi sicrhau bod gennych y gefnogaeth sydd ei hangen ar gyfer gwella, a chynnal hyder yng nghynaliadwyedd gwelliannau i adrannau achosion brys a rheoli amrywioldeb. Rhaid i'r Bwrdd gymryd atebolrwydd llawn am fynd i'r afael â'r materion hyn a darparu tystiolaeth glir o gynnydd ar gyflymder.

Diolch am eich ymgysylltiad parhaus a'ch ymrwymiad i wella gwasanaethau i'r boblogaeth rydych yn ei gwasanaethu.

Yn gywir



Jeremy Miles AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care